Ein Treftadaeth
Our Heritage

Taith Pererin Gogledd Cymru
North Wales Pilgrim's Way

# Bangor a'i chadeirlan – lle am bererindod

Yn y chweched ganrif, dechreuodd Cristnogaeth ffynnu yng Nghymru a sefydlwyd eglwysi mewn nifer o lefydd, yn cynnwys Ynys Enlli, Bangor a Chlynnog Fawr. Daeth ymweld â safleoedd sanctaidd a mannau cysegredig i seintiau, megis Deiniol a Beuno, yn boblogaidd yn y canrifoedd yn dilyn eu marwolaeth. Daeth eglwys gadeiriol Bangor yn le pwysig i bererinion oedd yn teithio o Dreffynnon i Ynys Enlli. Roedd Bangor yn fan ymgynnull i bererinion gyfarfod ei gilydd ac yn fan lle gallai teithwyr newydd ymuno â'r bererindod i Ynys Enlli. Heddiw, mae Taith Pererin Gogledd Cymru sy'n 130 milltir ar hyd yr arfordir, yn daith wych sy'n dilyn ôl troed y pererinion canoloesol.

## Safle'r gadeirlan gynharaf ym Mhrydain

Gellir olrhain gwreiddiau eglwys gadeiriol odidog Bangor i'r chweched ganrif pan roddodd y Brenin Maelgwn Gwynedd dir i Deiniol sefydlu cymuned Gristnogol '*clas*'. Fe wnaeth Deiniol, Esgob cyntaf Bangor, amgylchynu'r safle â ffens plethwaith a elwid yn '*bangor*'. Dyma sut y cafodd dinas Bangor ei henw. Mae rhannau hynaf yr eglwys gadeiriol bresennol yn dyddio i tua 1130. Mae wedi'i hadeiladu ar yr un safle â '*clas*' gyntaf Deiniol ac mae'n parhau i ddefnyddio ei enw.

# Bangor and its cathedral – a place of pilgrimage


In the 6th century, Christianity began to thrive in Wales and churches were established in many places, including Bardsey Island, Bangor and Clynnog Fawr. Visiting holy sites and shrines associated with saints, such as Deiniol and Beuno, gained popularity in the centuries after their deaths. Bangor's cathedral became an important stop for pilgrims journeying from Holywell to Bardsey Island. Bangor was a gathering place for pilgrims to meet one another and a point where new travellers could join the pilgrimage to Bardsey. Today, the North Wales Pilgrim's Way is a 130-mile walking route along the coast, an epic journey that follows in the footsteps of the medieval pilgrims.

## The earliest cathedral site in Britain

The roots of Bangor's magnificent cathedral can be traced back to the 6th century when King Maelgwn Gwynedd gave land to Deiniol to set up a Christian community known as a *clas*. Deiniol, the first Bishop of Bangor, surrounded the site within a wattle fence called a '*bangor*'. This is how Bangor got its name. The oldest parts of the present cathedral date to around 1130. It is built on the same site as Deiniol's *clas* and continues to bear his name.



Cadeirlan Eglwys Bangor gan Leonard Knyff
Cathedral Church Bangor by Leonard Knyff
© Hawlfraint y Goron Casgliad Celf Llywodraeth y DU
© Crown copyright: UK Government Art Collection




## Preswylfa ganoloesol brin

Plas yr Esgob yw'r ail adeilad hynaf ym Mangor ar ôl y gadeirlan. Mae'r plas yn adeilad prin gan mai dyma'r unig blas yr esgob sydd wedi goroesi mewn cyflwr cymharol gyflawn ers diwedd y canol oesoedd yng Nghymru. Mae techneg dyddio coed a phresenoldeb arysgrif yn dangos bod yr adeilad yn dyddio i ddechrau'r 16eg ganrif, gyda rhannau wedi'u hychwanegu yn y 18fed ganrif a'r 19eg ganrif. Byddai'r plas 16eg ganrif wedi bod yn neuadd fawr o ffrâm goed, lle byddai Esgobion olynol wedi byw.

## A rare medieval residence

The Bishop's Palace is the second oldest building in Bangor after the cathedral. The palace is a rarity as the only substantially intact late medieval bishop's palace to have survived in Wales. Tree ring dating and an inscription date the building to the early 16th century, with 18th and 19th century additions. The 16th century palace would have been a large timber framed hall in which successive Bishops would have resided.



Plas yr Esgob, Bangor gan yr Ysgol Brydeinig c.1840
Bishop's Palace, Bangor by British School, c. 1840
© Llyfrgell Genedlaethol Cymru | © The National Library of Wales

Mannau Sanctaidd
Sacred Places

## DILYNWCH Y STORI

**Eglwys Gadeiriol Deiniol, Bangor** – Gellir olrhain gwreiddiau'r gadeirlan fel un o'r safleoedd cadeiriol cynharaf ym Mhrydain i'r chweched ganrif, pan sefydlodd Deiniol '*clas*' yma.

**Canol Dinas Bangor** – dilynwch stori Bangor trwy gerdded ar hyd y Llinell Amser ar y Stryd Fawr.

## FOLLOW THE STORY

**St Deiniol's Cathedral, Bangor** – as one of the earliest cathedral sites in Britain, it can trace its history back to the 6th century when Deiniol established a *clas* here.

**Bangor City Centre** – follow the story of Bangor by walking along the Time Line in the High Street.

Conwy – Cyngor Bwrdeistref Sirol / County Borough Council
Cyngor Gwynedd Council
Parc Cenedlaethol Eryri / Snowdonia National Park
ERDF – Llywodraeth Cymru / Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund
Cadw
Llywodraeth Cymru
Welsh Government